

Edexcel GCE

# Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 9: Cyfathrebiadau a Rhwydweithiau

Ionawr 2012

Senario

Cyfeirnod y Papur

**6959/01W**

Dylai'r senario gael ei ddsbarthu i ymgeiswyr o leiaf dair  
wythnos waith cyn yr arholiad.

Sylwch: **Nid oes** ffeiliau ymarfer ar gyfer yr arholiad hwn.

Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. **Ni chaniateir** mynd â'r copi hwn i mewn i'r arholiad. Bydd y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y senario yn cael ei chynnwys yn y papur arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau (ICE), sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster hwn.

**Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.**

*Trowch y dudalen*

W41274A

©2012 Edexcel Limited.

1/



edexcel   
advancing learning, changing lives

## Senario

### **Lyonesse Showground Ltd**


Mae'r teulu Knight yn berchen ar *Lyonesse Showground Ltd (LSL)* ac yn ei redeg. Mae maes y sioe yn cael ei ddefnyddio i gynnal amrywiaeth fawr o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn. Mae gwyliau cerddoriaeth, sioeau amaethyddol, raliau hen gerbydau ac arddangosfeydd gwersylla yn ddigwyddiadau nodweddiadol.

Mae LSL yn bwriadu gosod system TG (IT) well ar gyfer maes y sioe yn ei gyfanrwydd ac rydych chi wedi cael eich cyflogi i roi cyngor i'r cwmni. Eich pwynt cyswllt chi yw Tristram Knight, y Cyfarwyddwr Gwaith (*Works Director*), sy'n rheoli'r gwaith o baratoi maes y sioe ar gyfer y digwyddiadau gwahanol.


Mae gan Tristram wybodaeth ymarferol o'r systemau presennol ond nid yw'n arbenigwr TG. Mae'n credu ei bod yn hanfodol iddo ef a'i staff ddeall unrhyw isadeiledd (*infrastructure*) newydd ac mae eich cytundeb yn gofyn i chi ddarparu dogfennau briffio a deunyddiau hyfforddi addas.

### **Maes Sioe Lyonesse**

Mae rhai nodweddion parhaol ar faes y sioe, fel sy'n cael eu dangos ar y llinfap (*sketch map*). Dyma'r nodweddion parhaol – dwy neuadd arddangos, tair arena, yr adeiladau gweinyddol, maes parcio a grid o ffyrdd (*roadways*). Glaswellt yw gweddill maes y sioe. Mae LSL yn berchen ar nifer o bebyll mawr (*marquees*), bythod gwerthu tocynnau (*ticket booths*), toiledau symudol, bythod arlwyyo a strwythurau dros dro eraill, sy'n gallu cael eu gosod o fewn maes y sioe.



Mae cwndidau gwasanaethau (*service ducts*) yn rhedeg wrth ymyl y ffyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys sianeli concrit 20 cm sgwâr gyda gorchuddion dur sy'n gallu cael eu cloi. Mae'r gorchuddion mewn darnau 1 metr hir, gyda rwber hyblyg ar bob pen. Mae hyn yn caniatáu i geblau a phibelli gael eu gosod yn hawdd. Gallwch dybio bod gan Neuadd 1, Neuadd 2 a'r adeiladau gweinyddol gysylltiadau â'r cwndidau gwasanaethau lle bynnag y mae eu hangen.



Mae pibelli dŵr a cheblau'r prif gyflenwad trydan (240v) yn rhedeg drwy bob un o'r cwndidau gwasanaethau. Mae gwasanaethau eraill fel cyflenwad nwy neu geblau ffôn yn cael eu gosod pan fydd angen y rhain. Mae hyn yn gwneud y system yn hyblyg iawn.

Mae pwynt mynediad i wasanaethau (*services access point*) wrth y rhan fwyaf o gyffyrdd (*junctions*) y ffyrdd. Mae pwynt mynediad i wasanaethau yn cynnwys socedi a thapiau amrywiol sy'n caniatáu i gysylltiadau gael eu gwneud ag ardaloedd cyfagos. Mae natur hyblyg y system gwasanaethau yn golygu nad oes byth angen gosod ceblau a phibelli ar draws ffordd, a phan fyddant yn cael eu gosod ar draws yr ardaloedd glaswellt, dim ond am y pellter lleiaf posibl y maen nhw ar y tir agored (*exposed*).

### Y system TG bresennol

Mae'r ddwy neuadd arddangos a'r adeiladau gweinyddol wedi eu cysylltu â'i gilydd drwy system ffôn fewnol. Mae'r cyfathrebu â'r holl ardaloedd eraill o faes y sioe yn cael ei wneud drwy radio a/neu drwy ffôn symudol.

Mae gan y ddwy neuadd arddangos a'r adeiladau gweinyddol ardaloedd derbynfa sydd â chysylltiadau ffôn allanol a mynediad i'r Rhyngwrdd drwy fand llydan.

Mae'r adeiladau gweinyddol yn cynnwys Rhwydwaith Ardal Leol (*Local Area Network – LAN*) bach sy'n cael ei reoli gan weinydd (*server*) sy'n rhedeg *Windows Server 2003*. Mae hwn wedi dyddio (*outdated*) a bydd un hollol newydd yn cael ei osod yn ei le.

Mae'r ddwy neuadd arddangos yn cynnwys LAN yr un, gyda cheblau copr, sydd wedi cael eu gosod yn ddiweddar ac sydd wedi cael eu hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer rhedeg digwyddiadau ym mhob neuadd. Mae pob un o'r ddau LAN hyn yn barth (*domain*) annibynnol gyda'i weinydd ei hun, sy'n rhedeg *Windows Server 2008*. Bydd y ddau LAN hyn yn cael eu cadw ond bydd angen eu cysylltu â'r system newydd.

### Y system newydd

Bydd canolfan weinyddu a TG yn cael ei sefydlu mewn estyniad newydd i'r adeiladau gweinyddol.

Yn dilyn trafodaeth â Tristram, rydych yn cytuno y bydd y system newydd yn cynnwys:

- y ddau LAN presennol yn y neuaddau arddangos, wedi'u cysylltu â'r system newydd
- LAN newydd yn yr adeiladau gweinyddol
- cysylltiadau â phob rhan o faes y sioe, gan gynnwys yr arenas a'r strwythurau dros dro sy'n cael eu gosod ar gyfer digwyddiadau penodol.

Cytunir hefyd:

- bydd LAN yr adeilad gweinyddol yn defnyddio cebl copr
- bydd cysylltiadau â maes y sioe yn defnyddio cymysgedd o gebl ffibr optegol a chebl copr.